

laith yr aelwyd: ffactorau sy'n dylanwadu ar 'drosglwyddiad iaith' yn y cartref

Kathryn Jones a Delyth Morris

"Dyma'r unig blentyn gwirioneddol ddwyieithog i mi ei dysgu erioed". Dyna oedd sylw athrawes Rowena, 6 oed, pan aeth rhieni'r ferch fach i'r noson rhieni gyntaf yn ei hysgol newydd yn sir Gaerfyrddin. Cyn iddi gychwyn yn yr ysgol, roedd Rowena wedi byw gydol ei hoes yn Los Angeles, gyda thad o Gymro a mam o Saesnes. Roedd y tad wedi penderfynu o'r cychwyn cyntaf y byddai ei blant yn medru siarad Cymraeg, a gyda chydysyniad ei wraig, bu'n siarad Cymraeg yn unig gyda Rowena a'i brawd bach Jac yng Nghaliffornia, gan ddarllen stori Gymraeg iddynt bob nos a sicrhau cyflenwad digonol o fideos Wil Cwac Cwac, Teletubbies Cymraeg, a Postman Pat i'r plant eu gwyllo.

Teulu arall, o Wynedd y tro hwn. Nid oedd Justin, mab ieuengaf y teulu a oedd yn 3 oed, yn medru siarad dim Cymraeg, er iddo gael ei eni a'i fagu yn un o ardaloedd Cymreiciaf Gwynedd, gyda mam a thad oedd yn medru siarad Cymraeg. Nid oedd y fam, a oedd yn Saesnes o dras, yn gyfforddus yn siarad Cymraeg, er ei bod wedi dysgu'r iaith yn rhugl yn yr ysgol. Nid oedd gan ei gwr, a oedd yn perthyn i deulu mawr Cymraeg lleol, fawr o ddylanwad arni parthed iaith y plant, a Saesneg oedd unig iaith holl weithgareddau'r teulu.

Rydym i gyd yn gwybod am enghreifftiau tebyg i un Justin, pan fo cydnabod a chymdogion i ni, a hyd yn oed aelodau'n teuluoedd ein hunain, yn dewis peidio â throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Mae achos Rowena a Jac yn anghyffredin, ond mae'n dangos pan fo penderfyniad ac ymrwymiad cadarn gan rieni nad yw'n amhosib trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu, waeth beth fo'r amgylchiadau allanol.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, oddeutu hanner y teuluoedd 'iaith gymysg' (sef un riant Cymraeg ei iaith a'r llall yn ddi-Gymraeg) sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant yng Nghymru, o'i gymharu â 92 y cant o deuluoedd ble mae'r ddau riant yn siaradwyr Cymraeg. Gwyddom mai siarad Cymraeg ar yr aelwyd yw'r ffactor cryfaf sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith plant yn nes ymlaen yn eu bywydau, yn arbennig wrth iddynt dyfu i fod yn rhieni eu hunain. Ond sut mae dylanwadu ar rieni i ddefnyddio Cymraeg gyda'u plant? Gwyddom fod y teulu'n cael ei drin fel sefydliad cysegredig yn ein cymdeithas, ac mae hynny'n gwneud unrhyw ymdrech i ymyrryd ynddo yn fenter llawn peryglon, yn arbennig o safbwynt hyrwyddo iaith leiafrifol. Serch hynny, gydag oddeutu chwarter y teuluoedd yng Nghymru sydd â'r potensial i drosglwyddo'r Gymraeg yn methu â gwneud hynny yn ôl amcangyfrif Bwrdd yr Iaith, mae'n amlwg fod rhaid dwyn perswad ar deuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant os ydym am sicrhau ei bod yn goroesi fel iaith hyfyw. Yn hyn o beth, bu mentrau fel Twf yn weithgar ers rhai blynyddoedd bellach yn chwilio am ffyrdd o annog dwyieithrwydd ymhlith teuluoedd yng Nghymru.

Dangosodd ymchwil blaenorol fod rhieni'n aml yn coleddu agweddau positif tuag at y Gymraeg, ond rywsut yn methu â gweithredu ar hynny yn achos trosglwyddo'r

Gymraeg i'w plant eu hunain. Yn niffyg gwybodaeth fanwl ynghylch y ffactorau sy'n arwain at i rieni drosglwyddo'r Gymraeg neu beidio i'w plant, mae'n anodd llunio polisïau cymdeithasol addas i sicrhau cynnydd. Dyma felly oedd un o amcanion ein hymchwil diweddar, a edrychodd yn fanwl ar ddeuddeg o deuluoedd 'iaith gymysg', gyda phlant rhwng 0-2 oed, mewn tair ardal yng Nghymru. Cam cyntaf oedd hwn mewn prosiect tymor hir a fydd yn olrhain hanes y plant bychain hyn wrth iddynt dyfu, a bwriedir ehangu'r niferoedd i gynnwys rhagor o blant a theuluoedd yn y cam nesaf.

Nid yn annisgwyl, efallai, darganfuom mai'r ffactor unigol pwysicaf oedd yn dylanwadu ar drosglwyddiad y Gymraeg oedd yr amser a dreuliai'r plentyn bach yng nghwmni'r rhiant Cymraeg ei iaith o ddydd i ddydd. Yn achos ein sampl ni o blant rhwng 0-2 oed, y fam oedd y prif ofalydd ym mhob achos bron, gyda nifer o'r mamau'n treulio drwy'r dydd bob dydd gyda'r plentyn. Pan oedd y fam yn siarad Cymraeg, felly, roedd yn ymddangos y byddai'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo'n weddol ddidrafferth i'r plentyn. Fodd bynnag, nid oedd pethau mor syml â hynny. Tra bod bron pob mam a allai siarad Cymraeg yn gwneud hynny pan yr oedd ar ei phen ei hun gyda'r plentyn, yr oedd y sefyllfa'n newid pan ddoi'r tad di-Gymraeg adref. Teimlai nifer o'r mamau Cymraeg eu hiaith dan bwysau i droi i'r Saesneg gyda'r plentyn ym mhresenoldeb y tad di-Gymraeg, er mwyn ei gynnwys yn y sgwrs a chreu'r ymdeimlad o 'deulu'. Roedd yr un peth yn wir hefyd yn achos y tadau yn ein sampl a oedd yn rhugl eu Cymraeg. Un eithriad oedd tad Rowena a Jac, a wnâi ymdrech gyson ac ymwybodol i siarad Cymraeg gyda'r plant bob amser, waeth beth fo'r amgylchiadau na phwy oedd yn bresennol. Yn ogystal, roedd yn sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau ategol fel llyfrau, fideos a DVDs Cymraeg, ac yn treulio'r amser oedd ganddo gyda'i blant yn siarad Cymraeg wrth chwarae a mynd am dro. Hynny yw, roedd yn gwneud ymdrech ymwybodol i hybu defnydd o'r Gymraeg gyda'i blant, a hynny'n dra effeithiol yn yr amser cyfyngedig oedd ganddo yn eu cwmni. Oherwydd gofynion gwaith, oddeutu dwy awr y dydd a dreuliai gyda'i blant yn ystod yr wythnos, fel y mwyafrif o'r tadau eraill yn y sampl.

Roedd rhai o'r mamau hefyd yn dal ati i siarad Cymraeg bob amser gyda'r plentyn, hyd yn oed pan yr oedd y partner di-Gymraeg yn bresennol, ond roedd rhai yn ymwybodol eu bod yn creu tensiwn o fewn y berthynas trwy wneud hynny. Cawsom un achos ble'r oedd y tad di-Gymraeg yn anfodlon i'w blentyn fynd at ofalwraig plant Gymraeg ei hiaith tra'r oedd y fam yn gweithio, oherwydd y peryg, yn ei dyb ef, na fyddai'r plentyn yn dysgu siarad Saesneg yn iawn. Er bod hyn yn ymddangos yn bryder di-sail i ni siaradwyr Cymraeg, eto roedd yn bryder gwirioneddol i nifer o rieni di-Gymraeg y sampl, ac roedd yn arwain at beth anghydfod mewn rhai teuluoedd. O dan amgylchiadau o'r fath, yr oedd angen cryn benderfyniad a gwytnwch ar ran y rhiant Cymraeg i barhau i siarad Cymraeg yn unig gyda'r plentyn. Ffynhonnell tensiwn arall oedd teidiau a neiniau Cymraeg eu hiaith yn siarad Cymraeg yn unig gyda'r plentyn ym mhresenoldeb y rhiant di-Gymraeg, ac yr oedd hyn yn arwain at i'r rhieni Cymraeg eu hiaith fabwysiadu nifer o dactegau i geisio 'gwneud iawn' am y sefyllfa er mwyn osgoi gwrthdaro, fel siarad mwy o Saesneg ei hunain gyda'r plentyn yng nghwmni'r rhiant arall.

Gwelsom fod gwerthoedd a phatrymau defnydd iaith yn cael eu sefydlu yn gynnar iawn ym mywydau pobl, gyda'r rhieni yn ein sampl yn tueddu i ailadrodd eu profiadau eu hunain wrth fagu plant - hynny yw, yr oedd y rhieni a fagwyd ar aelwydydd Cymraeg eu hiaith yn siarad Cymraeg yn 'naturiol' gyda'u plant am mai dyna oedd eu

profiad nhw eu hunain, a'r un modd yn achos y rhieni di-Gymraeg. Ni chawsom yr un achos ble'r oedd mam a fagwyd ar aelwyd gwbl Gymraeg yn siarad Saesneg gyda'i phlentyn, ac yn achos y tadau, dim ond un Cymro Cymraeg oedd yn siarad Saesneg gyda'i blentyn, o dan gryn bwysau o du'r fam ddi-Gymraeg. Fodd bynnag, gwelsom fod y ddwy fam yn ein sampl a oedd yn medru Cymraeg ond a oedd eu hunain wedi eu magu mewn teuluoedd 'iaith gymysg' yn fwy tueddol o ddefnyddio Saesneg gyda'u plant.

Gwelsom pa mor bwysig yw'r cymdeithasoli sylfaenol sy'n digwydd tu mewn i'r teulu mewn sefydlu patrymau iaith a diwylliant, a fydd yn parhau i ddylanwadu ar y plentyn i wahanol raddau drwy gydol ei oes. Yn ychwanegol at y teulu, wrth gwrs, mae nifer o asiantaethau cymdeithasoli eilaidd sy'n dylanwadu ar iaith ac ymddygiad y plentyn, megis addysg, ffrindiau, y cyfryngau, a'r gymuned, a bydd y sefydliadau hyn i gyd yn dylanwadu mewn gwahanol ffyrdd ac i wahanol raddau ar iaith plant. Er enghraifft, mae plentyn yn fwy tebygol o siarad Cymraeg os yw'n byw mewn cymuned Gymraeg yng Ngwynedd nag mewn cymuned ddi-Gymraeg yng Ngwent, neu os yw ei gylch ffrindiau'n siarad Cymraeg. Mae'r amryw ffactorau hyn yn eu tro'n effeithio ar lefelau gallu'r plentyn yn y Gymraeg a'i hyder yn ei defnyddio. Pan fo teuluoedd yn methu â rhoi cyfleoedd digonol i blant yn y Gymraeg, rhaid dibynnu ar asiantaethau allanol i ddarparu'r cyfle, er nad yw hyn cystal â'r cymdeithasoli sylfaenol a geir tu mewn i'r teulu. Mae ysgolion yn llwyddo'n dda iawn i ddysgu'r Gymraeg i blant, a'r un modd mae rhaglenni plant ar S4C ac adnoddau cyfryngol eraill yn medru cynnig cyfleoedd da i glywed a dysgu iaith. Yn ogystal, mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin, Twf, Cylchoedd Ti a Fi, Sachau Stori, a mentrau tebyg i gyd yn rhoi cyfle i blant bach gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda phlant eraill.

Ond wrth gwrs ni ellir cymryd lle'r teulu fel y cyfrwng pwysicaf i drosglwyddo'r iaith, ac i sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith ddewisol plentyn yn nes ymlaen yn ei fywyd. Mae'n tystiolaeth ymchwil ni'n awgrymu fod rhieni at ei gilydd yn dangos ewyllys da at y Gymraeg, ond fod bylchau yn eu gwybodaeth a'u profiad yn arwain at ansicrwydd a diffyg hyder, sydd yn ei dro'n tanseilio'r Gymraeg. Mae angen parhau i godi hyder ac ymwybyddiaeth rhieni ynghylch eu rôl allweddol, ac i geisio eu hargyhoeddi mai trwy siarad Cymraeg gyda'u plant bach y byddant yn rhoddi'r hwb orau ymlaen iddynt lwyddo yn y Gymru 'gwbl ddwyieithog' newydd y mae'r Cynulliad yn ei hyrwyddo yn 'iaith Pawb'. Gwelsom nad mater i famau yn unig yw iaith eu plant – yn wir, y model gorau a welsom ni o safbwynt trosglwyddo'r Gymraeg mewn perthynas 'iaith gymysg' oedd tad Rowena a Jac. Y nod yw annog a pherswadio rhieni eraill i fabwysiadu ei ddull eofn ac unplyg ef.

Awst 2006

I'w gyhoeddi yn Barn